# Cenn@d

HYDREF 16 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 190


## Rhwyd y Brenin – sefydlu gwaith newydd yn sir Benfro

Mae sefyllfa'r dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yn sir Benfro yn fater o gonsýrn mawr. Mae'n ymddangos bod yr hen drefn yn methu a bod angen golwg newydd ar y sefyllfa. Credaf fod o leiaf dri pheth yn hanfodol wrth feddwl am ddechrau gwaith newydd.

**1. Gweledigaeth glir yn codi o argyhoeddiad mewnol**. Dros y flwyddyn ddiwethaf dwi wedi fy argyhoeddi bod angen sefydlu gwaith newydd yn Hwlffordd er mwyn gwasanaethu dalgylch Ysgol Caer Elen. Er bod oedfaon Cymraeg wedi cael eu cynnal yn Hwlffordd yn achlysurol, does dim oedfaon cyson, wythnosol, wedi cael eu cynnal yno yn y Gymraeg ers blynyddoedd lawer. Yn ein dosbarth Beiblaidd rai misoedd yn ôl cawsom ein herio i ymateb i orchymyn Iesu i daflu'r rhwyd i'r ochr arall: 'Meddai yntau wrthynt, "Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde i'r cwch, ac fe gewch helfa."' (Ioan 21:6) Ein gweledigaeth, felly, yw taflu'r rhwyd i ochr arall y cwch, i ochr arall llinell y Landsker, yn Hwlffordd. Nid peth newydd yw hyn mewn un ystyr, oherwydd ar un adeg roedd dwy eglwys gyda'r Bedyddwyr yn Hwlffordd, sef Bethesda – 'The English Cause' a Hill Park – 'The Welsh Cause'.

**2. Ymrwymiad i weddi**. Os nad ydym o ddifrif ynglŷn â gweddi dros unrhyw fenter newydd, does dim pwynt gwastraffu amser nac egni. Mewn un ystyr, gweddi yw'r gwaith, 'Os nad yw'r ARGLWYDD yn adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer.' (Salm 127:1) Rhaid gofyn i Dduw symud yn nerth yr Ysbryd Glân i adeiladu ei eglwys yn ein plith. Cawsom ein herio hefyd yn ein dosbarth Beiblaidd yn Llyfr Sechareia gyda'r geiriau, 'Nid trwy lu, ac nid trwy nerth ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y Lluoedd.' (Sechareia 4:6) Rhaid felly geisio gofyn am faich i weddïo dros y dystiolaeth Gristnogol yn ein sir.

**3. Mentro ar sail y Gair**. Mae'n naturiol dechrau unrhyw drafodaeth ar y sefyllfa yn sir Benfro gyda'r capeli sydd ar ôl, prinder y



**"Rhwyd y Brenin"**
Oedfa Gymraeg
Sul cyntaf y mis
am 3.00 y prynhawn
Capel Emmanuel Hwlffordd
87, Pembroke Road, SA61 1LN
Croeso cynnes i bawb.
"Adnabod Crist a'i gyflwyno i eraill."
Rhagor o fanylion - Geraint Morse 07805 617555

gweinidogion i wasanaethu, yr angen am leygwyr i bregethu'n gynorthwyol, methiant i gyrraedd y bobl ifanc ayb. Ond tybed a ydym, wrth wneud hyn, yn dechrau yn y man anghywir? Gwell dechrau mewn man arall, dechrau gyda mawredd tosturi Duw, buddugoliaeth yr Arglwydd Iesu, grym yr Ysbryd Glân, gogoniant yr efengyl, cariad Iesu tuag at ei ddyweddi, yr Eglwys, y gobaith i'r colledig yn yr efengyl. Felly, rhaid i unrhyw waith newydd fod yn 'efengyl-ganolog' yn unol â gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion: 'Rhoddwyd i mi,' meddai, 'bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' (Mathew 28:19–20)

Ymgais i ymateb yn gadarnhaol i orchymyn Iesu, felly, yw'r ymdrech i ddechrau gwaith newydd a chroesi ffin y Landsker er mwyn gwneud hyn yn yr iaith Gymraeg. Dwi ddim yn gweld hyn fel dechrau eglwys newydd ond sefydlu prosiect cenhadol a rhoi'r cyfle i gyfarfod mewn oedfaon ar y Sul yn y Gymraeg yn Hwlffordd. Efallai y bydd eglwys yn cael ei phlannu o hyn, maes o law. Cawn weld beth yw cynlluniau'r Arglwydd ar ein cyfer. Rwy'n disgwyl y bydd nifer o'r rhai fydd yn dod ar y dechrau yn aelodau eisoes mewn capeli, a does dim bwriad o gwbl i'w denu o'u cyfrifoldeb i fynychu eu heglwysi eu hunain. Ond rhaid gweld tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn aelodau mewn eglwysi a cheisio ffyrdd i gyrraedd y rhai sydd heb glywed efengyl yr Arglwydd Iesu, rhai sy'n dysgu Cymraeg, rhieni, plant a phobl ifanc sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol. Boed i ni dderbyn arweiniad yr Ysbryd a bod yn barod i fentro mewn ffydd. Efallai y bydd dechrau rhywbeth yn Hwlffordd yn sbarduno eraill i fentro i ddechrau rhywbeth tebyg mewn ardal arall uwchben y Landsker. Yng ngeiriau William Carey, rhaid 'Disgwyl pethau mawr gan Dduw, a mentro pethau mawr dros Dduw'.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Cyflwyno Myfyrwyr Blwyddyn Gap Coleg y Bala 2024–5 **Tudalen 3**

BWLETIN POLISI Cytûn HYDREF/TACHWEDD 2024 **Tudalen 5**

Gwasanaeth diolchgarwch *Cenn@d* **Tudalen 8**

*Rhwyd y Brenin – sefydlu gwaith newydd yn sir Benfro*
*(parhad o dudalen 1)*

Mae saith ohonom, sy'n rhannu'r un weledigaeth, wedi bod yn cyfarfod yn fisol i weddïo ac i drefnu ar gyfer y prosiect cenhadol hwn. Enw'r prosiect yw Rhwyd y Brenin, ac mae'r gwaith wedi cael ei gyflawni i sefydlu Rhwyd y Brenin gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae ein dyled yn fawr i staff Undeb Bedyddwyr Cymru am arweiniad a chefnogaeth. Ein nod yw bod yn ddysgwr-gyfeillgar. Efallai y byddwn yn llwyddo i gyrraedd rhai sydd wedi diflasu ar yr eglwys ac wedi cefnu ers blynyddoedd. Ein gobaith sicr yw gweld pobl yn dod i ffydd yn Iesu Grist. Byddwn yn cyfarfod yn eglwys Emmanuel, Merlin's Bridge, Hwlffordd. Mae'r gweinidog, y Parchg Dan Brett, a'r aelodau yn Emmanuel yn frwd iawn dros y gwaith ac yn ein cefnogi ym mhob ffordd bosibl. Diolch i Dduw am gefnogaeth Cristnogion Saesneg eu hiaith i'r ymdrech i gyrraedd pobl yn enw Iesu, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Wedi'r hir ddisgwyl, daeth y dydd agoriadol, 6 Hydref. Gweddïais o flaen llaw y byddai'r Arglwydd yn casglu 15 person fel arwydd o'i fendith ar ein hymdrechion o blaid ei deyrnas. Cawsom fendith ddwbwl – daeth 30, sef wyth plentyn a 22 o oedolion! Pan oeddwn yn blentyn, clywais rhai yn sôn am y 'down-belows', pobl yn byw ar waelod y sir, o dan y Landsker, pobl yn siarad Saesneg yn unig. Ofnaf, nad oedd llawer o gydymdeimlad na chariad wrth ddisgrifio'r pobl ryfedd hyn fel 'down-belows', ta beth oedd y rheswm am hynny! Erbyn heddiw mae llinell y Landsker yn newid. Tra mae'r iaith Gymraeg efallai'n colli tir uwchben y Landsker, ennill tir y mae o dan y Landsker. Rhaid ceisio bod yn effro i'r hyn sy'n digwydd o'n cwmpas yn sir Benfro a gweld y meysydd yn aeddfed i'r cynhaeaf.

*Geraint Morse*

# Trip i Ilston – 'edrych 'nôl er mwyn edrych ymlaen'

Er gwaethaf y glaw trwm trwy'r dydd, ddydd Sadwrn, 20 Gorffennaf, daeth tua 12 person i Oedfa Ilston yn Park-mill ym Mhenrhyn Gŵyr. Roedd y mwyafrif wedi teithio o sir Benfro a'r gweddill o orllewin Morgannwg. Fe wnes i arwain yr oedfa a chofio am waith John Miles yn sefydlu'r eglwys Fedyddiedig gyntaf yng Nghymru. Er ein bod wedi aros i weld a fyddai'r tywydd yn gwella, penderfynwyd nad oedd yn bosib cerdded y filltir o'r pentref at y gofeb a'r adfeilion. Cafwyd amser hyfryd yn mwynhau sgwrs a phaned o de yn y neuadd cyn dychwelyd i'n cartrefi.

Un o'r pethau pwysicaf ynglŷn ag oedfa fel hon yw cael cyfle i edrych 'nôl er mwyn gweld ble'r ydym nawr a pha wersi allwn eu dysgu wrth symud ymlaen. Dwi ddim yn siŵr pa mor gartrefol y byddai John Miles yn symud yn ein cylchoedd bedyddiedig heddiw. Dwi ddim yn siŵr chwaith, pa mor gysurus y byddem ni fel Bedyddwyr heddiw yn ei gwmni ef! Er enghraifft, roedd disgyblaeth eglwysig yn bwysig i John Miles, sef diaelodi pobl oedd yn ymddwyn yn anweddus neu'n cofleidio tueddiadau diwinyddol 'dieithr'. Efallai ei fod yn ymddangos braidd yn haearnaidd gyda'r rhai oedd yn crwydro'n foesol neu'n ddiwinyddol yn ei fwriad o gadw'r eglwys yn bur. Tybed a ydym wedi colli'r sêl o fyw bywydau sanctaidd i ogoneddu'r Arglwydd ym mhob dim? Hefyd, mae'n werth gofyn o'r newydd 'Beth yw eglwys?' a 'Beth yw ystyr a chyfrifoldeb aelodaeth mewn eglwys?' a 'Beth i'w wneud ag "aelodau" sydd ar y llyfrau ond byth yn mynychu oedfa?' Mae gen i syniad da beth fyddai ymateb Mr Miles i'r cwestiwn olaf!

Nodwyd nifer o nodweddion sefydlu eglwysi o dan arweiniad John Miles. Heb unrhyw amheuaeth roedd John Miles yn barod i arbrofi ac i fentro wrth sefydlu'r gwaith bedyddiedig newydd, er iddo wynebu gwrthwynebiad a siom.

Yn ail, roedd ganddo hyder yn yr efengyl fel newyddion da i newid bywydau pobl, ac o newid bywydau pobl, newid cymdeithas. Yr efengyl oedd yn ganolog i bob peth a wnaeth, sef cyhoeddi cariad a thrugaredd Duw tuag at bechaduriaid syrthiedig trwy waith achubol Iesu ar y groes. Er pob ymdrech heddiw i newid yr 'allanol' (seddau, cerddoriaeth, cynnwys a lleoliad), ofnaf nad yw'r neges sylfaenol yn sail i'r ymdrechion hyn. Roedd gan John Miles argyhoeddiadau dwfn, efengylaidd a dealltwriaeth glir o hanfodion yr efengyl.

Yn drydydd, roedd gan John Miles weledigaeth glir o'r hyn roedd am ei gyflawni wrth sefydlu eglwysi newydd, gwaith oedd yn gwbl ddibynnol ar nerth ac arweiniad yr Ysbryd Glân.



Felly roedd gweddi'n hanfodol i'w holl ymdrechion. Credaf y byddai John Miles wedi gweld ei waith fel mater o ufudd-dod i'r Arglwydd Iesu Grist, yn syml, mynd a gwneud disgyblion gan eu bedyddio yn enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân a'u dysgu i fyw yn deilwng o'r Arglwydd. Ond, efallai, yn bennaf oll yr oedd dymuniad i ogoneddu Duw wrth blannu eglwysi newydd.

Ble, felly, y gwelir heddiw ysbryd John Miles yn ein gwaith a'n tystiolaeth wrth fentro, arbrofi, brwydro a gweddïo er gogoniant Duw, gyda hyder yn yr efengyl a dibyniaeth ar yr Ysbryd Glân? Yn sicr, doedd John Miles ei hun ddim yn berffaith na'r eglwysi a blannodd, ond mae llawer gyda ni i'w ddysgu o'i argyhoeddiadau bedyddiedig!

Gobeithio y bydd y gymdeithas yr un mor felys y flwyddyn nesa, y cwmni'n gallu cyfarfod o gwmpas cofeb Ilston, yr anogaethau yr un mor heriol ond y tywydd yn fwy ffafriol.

*Geraint Morse*

## NODER: Cyfeiriad newydd Trefor a Miriam Lewis:

Flat 3,
Llys Watkin
Watkin Avenue
Hen Golwyn
Bae Colwyn
LL29 9NN
Ffôn: 01492 515475

# Cyflwyno Myfyrwyr Blwyddyn Gap Coleg y Bala 2024–5

Bob blwyddyn ers 1997 mae pobl ifanc o Gymru benbaladr ac ymhellach na hynny wedi bod yn dod i Ganolfan Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Coleg y Bala, er mwyn rhoi blwyddyn, neu ran o flwyddyn, mewn gwasanaeth i'r Arglwydd. Wrth wneud hynny maen nhw'n ehangu eu profiad ac yn cael cyfleoedd i wasanaethu ar gyrsiau yn y Ganolfan ochr yn ochr â'r gweithwyr sydd yno. Erbyn hyn mae nifer ohonyn nhw'n gweithio i fudiadau Cristnogol, rhai yn arwain eglwysi, eraill yn plannu eglwysi neu'n weithgar yn eu heglwysi yn lleol.

Eleni mae pedwar wedi ymuno yn y Bala. Darllenwch ymhellach wrth iddyn nhw rannu eu cymhellion a'u gobeithion. Cofiwch amdanyn nhw ac am y gwaith sy'n digwydd yn y Ganolfan ac wrth gefnogi eglwysi gyda'u gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd.





O'r chwith i'r dde, Shaina, Sioned, Deborah a Tomos



### Sioned Elliw Roberts – 18 oed o'r Bala

Cefais fy magu mewn teulu sydd ddim yn Gristnogion ond ym mis Chwefror 2023, yn ystod Aduniad Souled Out yng Ngholeg y Bala, teimlais bresenoldeb Iesu a chychwynnodd fy siwrnai ffydd. Rwy'n ddiolchgar am yr holl gyfleoedd rwyf wedi eu derbyn dros y blynyddoedd gan Goleg y Bala. Mae hyn wedi dylanwadu ar fy hunan-werth a fy hyder. Dwi'n credu y bydd y flwyddyn gap yn ffordd o allu talu 'nôl am yr holl anogaeth mae'r coleg wedi'i rhoi i mi dros y blynyddoedd. Dwi'n gobeithio gwasanaethu'r coleg drwy fuddsoddi amser yn y plant a'r ieuenctid, a'u hannog nhw ar eu siwrnai ffydd. Dwi hefyd yn gobeithio y bydd y flwyddyn gap yn help i mi dyfu yn fy ffydd bersonol, yn cryfhau fy mherthynas gyda Duw, ac yna'n magu'r hyder imi allu rhannu am Dduw gydag eraill.

Byddaf yn gwerthfawrogi eich gweddïau dros y gwaith y byddaf yn ei gyflawni yn ystod y flwyddyn yng Ngholeg y Bala. Fy ngweddi yw y bydd y plant a'r ieuenctid sy'n dod yma yn teimlo yr un mor gartrefol yma ag rydw i. Diolch yn fawr iawn.



### Deborah Parry – 21 oed o Gaernarfon

Helo, fy enw i yw Deborah. Fel person un ar hugain oed, rydw i wedi cael blas o sut deimlad yw bod eisiau i bopeth weithio allan a hynny'n gyflym. Rydw i wedi bod yn gweithio'n galed tuag at ddod yn berfformiwr ar lwyfan a theledu ers i mi astudio drama yn bymtheg oed. Yng nghanol hynny, rydw i wedi cael trafferth gyda dod o hyd i le i weddi a darllen y Beibl lle bynnag y byddaf.

Tu ôl i fy angerdd dros berfformio roedd angerdd tanbaid bob amser i wneud ewyllys Duw heb unrhyw deimlad o gyfaddawdu nac eilunaddoli fy llwybr gyrfa. Roedd sylwi pa mor fregus a thoredig oedd nifer o fy nghyd-fyfyrwyr a sylwi ar y diffyg sgyrsiau a gefais am Iesu yn dechrau fy mhoeni, a hynny yn fwy na fy niffyg cyfleoedd yn y celfyddydau. Roedd treulio amser gyda fy mherthnasau agos a'u plant yn fy atgoffa o bwysigrwydd dangos cariad a neges Duw iddyn nhw yn fwy na meddwl amdana i a'r hyn rydw i eisiau ar gyfer fy nyfodol.

Dwy flynedd ar ôl cwblhau fy mlwyddyn olaf yn y dosbarth celfyddydau perfformio, rydw i wedi dewis buddsoddi mwy o fy amser yng ngwaith Duw trwy Goleg y Bala. Rwyf wedi bod yn ymweld â'r lle hwn ers pan oeddwn yn dair ar ddeg oed, ac rwyf yn ystyried hwn fel fy ail gartref. Rhwng yr ysgol a'r perfformio i gyd, arweinwyr Coleg y Bala a ddyfrhaodd yr hedyn ffydd yn fy nghalon, a sylweddolais fy mod am wneud yr un peth i eraill. O ran rhannu'r efengyl, rhywbeth rydw i bob amser wedi cael trafferth ag ef yw dewrder.

Eleni, rwy'n gobeithio cael mwy o hyder i rannu'r efengyl yn ogystal ag ymgysylltu â phawb. Rwy'n gobeithio y gallaf weld pobl yn derbyn Iesu i'w bywydau, gweld cadwyni'n torri a phwysau'n cael eu codi. Rwyf am fod yn rhan o ddod â llawenydd i ddiwrnod pobl ac yn llais anogaeth i lawer yn ystod fy nghyfnod yng Ngholeg y Bala. Fy ngweddi yw y bydd popeth rydw i'n ei ddysgu yn aros gyda mi ac yn dod â gogoniant a chlod i Dduw.



### Tomos Gwynfor Edwards – 21 oed o Lanuwchllyn

Dwi wedi bod yn mynychu cyrsiau Coleg y Bala ers yn blentyn, ac wedi gweld y fendith maen nhw wedi bod i gymaint o blant ac ieuenctid, ac i mi'n bersonol. Felly, dwi eisiau gwneud y flwyddyn gap am y tymor yma i helpu i wasanaethu mewn gwaith sy'n bendithio plant a phobl ifanc Cymru. Mae gwaith Coleg y Bala hefyd wedi fy ysbrydoli i wneud gwaith Plant ac Ieuenctid fel swydd yn y dyfodol, ac mae'r flwyddyn gap yn gyfle i mi ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny!

Dim ond un tymor o'r flwyddyn gap fydda i'n ei wneud oherwydd dwi'n mynd i weithio mewn cenhadaeth efo'r eglwys yn

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Cyflwyno Myfyrwyr Blwyddyn Gap*
*Coleg y Bala 2024–5*
*(parhad o dudalen 3)*

Japan ym mis Ionawr. Penderfynais fynd mis Ionawr nesaf yn lle Tachwedd yma oherwydd o'n i'n meddwl ei fod yn bwysig i mi gael yr amser i allu tyfu'n ysbrydol ac ailffocysu ar Dduw trwy dreulio amser gyda'r staff a'r myfyrwyr blwyddyn gap eraill. Fe fydda i'n cael cyfle i sylwi ar eu ffydd nhw a dysgu oddi wrthyn nhw! Mi fuaswn i' n gwerthfawrogi gweddi y bydda i'n llwyddo i wneud hyn a holl waith y flwyddyn gap tra'n dal i godi arian i wirfoddoli yn Japan gyda OMF! Diolch yn fawr i chi.



**Shaina Boyce – 20 oed o Bontypridd**

Hia! Shaina ydw i ac rydw i wedi teithio'r holl ffordd o Bontypridd yn ne Cymru. Rhan o'r rheswm y des i yma oedd am y 'change of scenery', yn ogystal ag atgyfnerthu'r newid tymor yma yn fy mywyd. Rwyf wedi gwneud llawer o bethau yn fy mywyd wrth dyfu i fyny. Dim ond ar ôl Covid y dechreuais weld llaw Duw ar fy mywyd.

Yn 2022 dechreuais fy mlwyddyn gap gyntaf ym Manceinion ac rwy'n teimlo fel bod Duw wedi rhoi calon fwy i mi dros bobl, yn enwedig ieuenctid. Rwy'n teimlo fel bod Duw wedi defnyddio'r profiad hwnnw i'm harfogi ar gyfer yr un nesaf yma. Dyma'r prif reswm i mi ddewis dod i Goleg y Bala. Yn ystod fy amser yma rydw i wir yn gweddïo y bydd y bobl ifanc rydw i'n cwrdd â nhw yn dod i gysylltiad â Duw ar lefel ddyfnach. Rwy'n edrych ymlaen at gamu i fyny i arwain pobl ifanc mewn rhai meysydd a'u gwylio'n ffynnu yn eu ffydd. Dwi'n dysgu Cymraeg, felly mi fuaswn wir yn gwerthfawrogi eich gweddïau dros hynny yn ogystal â'r uchod. Diolch yn fawr i chi.

# Tro i'r Swistir IV

Awydd anniwall Zwingli oedd gweld y Diwygiad yn ymledu trwy Ewrop gyfan a chredai'n ddiffuant, pe bai'r efengyl yn cael ei chyflwyno'n ddirwystr, y deuai'r taleithiau Catholig i'w hanwesu'n frwd. Roedd ganddo hyder anorchfygol, naïf hyd yn oed, y byddai buddugoliaeth y Diwygiad yn esgor ar heddwch i bawb. Ni wawriodd arno y gallai rhywrai weld Protestaniaeth, o'i gorfodi trwy rym y cledd, yn fygythiad mawr.

Erbyn 1531 troes y tensiynau rhwng y taleithiau Catholig a'r rhai Protestannaidd yn ddwys iawn, a chredai Zwingli fod yr amser wedi dod i godi arfau o blaid ei ddehongliad o'r ffydd. Nid pawb oedd yn cytuno. 'Mae Gair Duw yn galw am heddwch ac undod,' rhybuddiodd ei gyd-Brotestant Niklaus Manuel o Bern. 'Fedrwch chi ddim creu ffydd trwy wawyffyn a bwyeill.' Eto i gyd, i ryfel yr aed, ac ar 11 Hydref ym mrwydr Kappel, ychydig filltiroedd i'r de o'r ddinas, syrthiodd Zwingli â'i gleddyf yn ei law. Fe'i chwarterwyd gan filwyr y gelyn, a llosgwyd ei gorff yn y fan. Roedd yn 47 oed.

Parodd hyn arswyd trwy'r Taleithiau Protestannaidd i gyd, a chyn pen dim ymbiliwyd am heddwch. Troes enw Zwingli yn faw, a hyd yn oed yn Zurich ffieiddiwyd y cof amdano. Gwrthododd y cyngor y dderbyn unrhyw arweiniad pellach gan y clerigwyr, ac oni bai am Heinrich Bullinger, olynydd Zwingli, byddai'r Diwygiad ei hun wedi bod mewn perygl mawr. Lleddfodd yr anesmwythyd rhwng Zurich a chyd-daleithiau Protestannaidd y Swistir, ac mewn gweinidogaeth hirfaith llwyddwyd i gymodi i raddau pell â Wittenberg hefyd. Trwy ei ddoethineb ef ac eiddo Philip Melanchthon, olynydd Luther, cafwyd cymod ar fater yr Ewcharist, a chyda dyfodiad Calvin i Genefa yn y 1540au, enillwyd unoliaeth ymhlith y gwledydd Protestannaidd. I Zurich y dihangodd John Hooper, esgob Caerloyw wedyn, a John Jewel, esgob Caersallog yn ddiweddarach, yn ystod teyrnasiad Mari Tudur. Bullinger ynghyd â Martin Bucer, diwygiwr Strasbourg, oedd pennaf gynghorwyr Thomas Cranmer wrth sefydlu'r Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr yn nyddiau Edward VI.

Beth, felly, oedd etifeddiaeth Huldrych Zwingli? Amwys, ar y gorau, oedd ei gyfraniad gwleidyddol, a phrin bod neb wedi ystyried ei farwolaeth yn farwolaeth merthyr. 'Caiff yr hwn sy'n byw trwy'r cleddyf,' meddai Luther amdano, 'ei ddifa trwy'r cleddyf.' Mae'r amwysedd hwnnw i'w weld yn amlwg yng nghofgolofn y ddinas lle y'i darlunnir gyda chleddyf mewn un llaw a'r Beibl yn y llall. O ran ei ddiwinyddiaeth, fodd bynnag, mae'r stori'n wahanol. Mae rhywbeth apelgar yn y cyfuniad o'r ffydd efengylaidd a'r ddyneiddiaeth Gristnogol ar batrwm Erasmus, tra mae ei gyfrolau mawr, *Eglurder a Chadernid Gair yr Arglwydd* (1520), *Eglurhad ar y Wir Grefydd a'r Gau* (1525) a'i *Esboniad ar y Ffydd* (1530), yn werth eu darllen o hyd. Er i Luther dynnu sylw at wendid ei ddehongliad o'r Swper, oni bai amdano ni fyddai Calvin wedi medru cynnig dehongliad gwell a chreu'r consensws Diwygiedig diweddarach. Ac fel diwygiwr ifanc roedd ei frwdfrydedd yn heintus.



Roland zh, CC BY-SA 3.0 via Wikimedia Commons

Dinas fywiog a diddorol yw Zurich a gwlad gyfoethog a phrydferth i'w ryfeddu yw'r Swistir ar ei hyd. Roedd yr ychydig ddiwrnodau yn ymweld â'r *Fraumünster* hardd, y *Grossmünster* fawreddog a mannau eraill yn gysylltiedig â'r Diwygiad yng nghanol mis Awst yn wefr ac yn fwynhad. Gobeithio fod peth o'r mwynhad wedi'i gyfleu yn y gyfres hon o ysgrifau.

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

# BWLETIN POLISI Cytûn
## HYDREF/TACHWEDD 2024

Diolch i Cytûn a'r Parch. Gethin Rhys am y rhifyn diweddaraf o'u Bwletin Polisi. Mae'n amlinellu llawer o'r hyn sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol inni fel eglwysi yng Nghymru ynglŷn â'n llywodraeth a'r mudiadau y gallwn gydweithio â nhw er mwyn gwasanaethu ein cymunedau. Rhoddir crynodeb yma o rai o'r erthyglau a cheir mynediad at y Bwletin yn llawn ar y ddolen hon: https://www.cytun.co.uk/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2024/

**Blaenoriaethau Newydd a Chabinet Newydd i Lywodraeth Cymru**



Yn dilyn cyfnod helbulus yn Llywodraeth Cymru, fe ddaeth y Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan AS, gerbron Senedd Cymru ar Fedi 17 i gyflwyno'i blaenoriaethau ar gyfer llywodraethu ac i gyflwyno'i Chabinet newydd fydd yn gweithredu'r blaenoriaethau hynny.

Fe ddywedodd i'r blaenoriaethau hynny gael eu siapio gan sgyrsiau a gafodd gyda'r cyhoedd ledled Cymru dros yr haf. Nid oedd hi'n syndod clywed fod pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd, safonau addysgol mewn ysgolion a thrafnidiaeth ar y rheilffyrdd a'r heolydd yn flaenoriaethau amlwg. Pwysleisiodd hefyd yr angen am dwf economaidd trwy gyfrwng creu "swyddi gwyrdd".

Roedd effaith y rheoleiddio cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar fywyd eglwysi yng Nghymru yn fater a godwyd gan Cytûn wrth ysgrifennu i longyfarch y Prif Weinidog – sydd ei hun o gefndir eglwysig – adeg ei phenodi.

**Cytûn yn cefnogi Partneriaeth Hapus**




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio Sgwrs Genedlaethol ar Les Meddyliol, ac mae Cytûn wedi ymuno fel cefnogwr Hapus. Mae Hapus ar Facebook, Instagram ac X. Mae gwefan Hapus yn cynnwys blogiau byr gan lawer o wahanol bobl yng Nghymru am yr hyn sy'n helpu eu lles meddyliol. Rydym yn awyddus i annog blogbyst gan bobl o ffydd am eu profiadau cadarnhaol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu blog, e-bostiwch: HI-Programme.Support@wales.nhs.uk gan nodi eich bod yn rhan o gymuned Cytûn.

**Safe Families a Home for Good yn uno**

Mae Safe Families a Home for Good, dau fudiad sy'n aelodau gyda Cytûn, wedi cyhoeddi eu bod yn uno, ar sail gweledigaeth uchelgeisiol o weld teuluoedd yn ffynnu. Mae Home for Good wedi gweithio gyda'r eglwys i ddod o hyd i gartrefi all feithrin plant na allant aros gyda'u teuluoedd genedigol.




Neil Davies o Home for Good yn Eglwys y Santes Catrin, Pontypridd, yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol

Ym mis Awst, roedd Home for Good a Safe Families yn bresennol am yr wythnos gyfan fel rhan o gyfraniad Cytûn i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Yn y gwasanaeth amser cinio dydd Gwener siaradodd Arfon Jones yn ysbrydoledig am stori fabwysiadu wych a heriol ei deulu ei hun. Mae Home for Good wedi lansio cronfa gynyddol o adnoddau Cymraeg. Gallwch ddod o hyd i dair stori o Gymru ar-lein, yn Gymraeg ac yn Saesneg: stori Heulwen ('Etifeddion'), stori Catherine a stori Dan. Mae fideo 38,000 Home for Good ar gael mewn fersiwn Gymraeg a fersiwn acen Gymreig (Saesneg).

**Paratoi'r ymgyrch Croeso Cynnes ar gyfer y gaeaf hwn**

Bu llawer o eglwysi Cymru yn cynnal Hybiau Cynnes (dan amrywiol enwau) dros y gaeafau diweddar. Gyda phrisiau tanwydd yn codi eto, a lwfans tanwydd gaeaf llawer o bensiynwyr wedi'i ddileu, bydd llawer o aelod eglwysi yn dymuno cynnal gofodau o'r fath eto. Mae Cytûn yn annog eglwysi sy'n dymuno gwneud hynny i gofrestru gyda'r ymgyrch Croeso Cynnes, sy'n ceisio cydlynu hybiau ymhob cymuned. Lansiwyd yr ymgyrch ar 3 Hydref, yn ogystal â'r Addewid 100%, sydd â'r nod o sicrhau bod gan bawb fynediad i Fan Croeso Cynnes o fewn taith gerdded 30 munud o'u cartref.




**A allai Cymru gyrraedd Sero Net erbyn 2035?**

Yn 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (dan y cytundeb cydweithredu ar y pryd) Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 i weld a ellid dwyn y targed presennol i Gymru gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 ymlaen i 2035, mewn ffordd fyddai'n gyfiawn a theg i bawb. Ar 16 Medi cyhoeddodd

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*BWLETIN POLISI Cytûn*
*HYDREF/TACHWEDD 2024*
*(parhad o dudalen 6)*

y Grŵp gyfres o adroddiadau yn cwmpasu Addysg, Swyddi a Gwaith; Bwyd; Gwresogi ac adeiladu cartrefi a gweithleoedd; Egni; a Chysylltu pobl (yn ddigidol ac o ran trafnidiaeth).

Mae Cytûn wedi cyfrannu at drafodaethau gyda'r Grŵp Her fel rhan o'i aelodaeth o Climate Cymru, ac yn gobeithio y bydd yr adroddiadau hyn yn helpu i lywio gweithredoedd Llywodraeth bresennol Cymru a maniffestos etholiad y Senedd yn 2026. Gobeithir y byddant hefyd yn herio'r gymdeithas gyfan – gan gynnwys eglwysi – i weithredu yn yr adeiladau a'r cymunedau lle maent wedi eu lleoli.

**PWYSIG: Arolwg o weithgareddau i blant yng Nghymru**



Llun: Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio arolwg ar gyfer darparwyr gofal plant, chwarae a gweithgareddau i blant dan 12 oed nad ydynt wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel Gwarchodwr Plant neu ddarparwr Gofal Dydd o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Byddai hyn yn cynnwys Ysgolion Sul, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau a bron y cyfan o weithgareddau plant pob enwad crefyddol yng Nghymru.

Mae Cytûn yn aelod o Grŵp Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar y mater, ac mae cryn bwysau ar y Llywodraeth i gofrestru a rheoleiddio'n dynnach weithgareddau o'r fath, gan gynnwys gweithgarwch eglwysi. Mae'n bwysig felly fod eglwysi yn ymateb i ddangos rhychwant, pwysigrwydd a diogelwch ein gweithgareddau ar gyfer plant dan 12 oed.

**Os ydych yn gyfrifol am weithgarwch Cristnogol lleol i blant, byddem yn eich annog i gymryd rhan yn yr arolwg:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/EANZAY/ ac i dynnu sylw eraill o fewn eich eglwys leol sydd hefyd yn gyfrifol. Bydd yr arolwg yn dod i ben ar 8 Tachwedd 2024.

# Fel hyn y bu

Beth sy'n gyffredin i etholiadau Prydain, Ffrainc ac Unol Daleithiau'r America – a Chymru? Maen nhw'n dra gwahanol i'w gilydd o ran arwyddocâd a'u pwysigrwydd i'r byd mawr cyfan. Ac mae'r peth sy'n gyffredin iddyn nhw i'w weld mewn gwledydd fel Rwsia a Hwngari a Tsieina hefyd. Erbyn meddwl, mae'n gyffredin i fywyd cyhoeddus ym mhob gwlad ac yn cael ei grynhoi yng ngeiriau hen gân fach ddeifiol Dafydd Iwan, "Rwy'n bwysig, bobl bach".

Mae 'na wers yn helynt Vaughan Gething druan – a fu'n Brif Weinidog Cymru am ychydig amser yn hwy nag a fu Liz Truss yn Brif Weinidog Prydain. Pan aeth yn Brif Weinidog, fe'm trawodd fod ei ddatganiadau cyhoeddus wedi mynd braidd yn 'bwysig' (*pompous*, hynny yw), os nad yn hunanbwysig. A phan ddarganfuwyd ei fod wedi derbyn arian gan rywun amheus, roedd ei anallu i gyfaddef ei gamsyniad yn hollol ddifaol i'w enw da. Chwarae teg, fe wnaeth y peth call a chyhoeddi na fyddai'n sefyll yn yr etholiad nesaf i Senedd Cymru.

Dwn i ddim am y cefndir, wrth gwrs, ac mae'n bosibl bod eglurhad llawer mwy cymhleth yn rhywle, ond mae'n amlwg bod yna gwympo mas wedi bod! Fel sydd rhwng Democratiaid a Gweriniaethwyr. Fel sydd rhwng disgyblion yr ochr chwith yn Ffrainc. Fel sydd rhwng Ceidwadwyr yn Lloegr, ac fe ymddengys ym mhob plaid, ond bod rhai pleidiau'n ei guddio'n well na'i gilydd.

Felly y bu rhwng disgyblion Iesu hyd yn oed. Doedden nhw chwaith ddim yn berffaith ac roedd gwaith dysgu arnyn nhw. Ac mae eu holynwyr ym mhob canrif wedi bod yn debyg iawn. Mae'r broblem yn codi, nid yn unig gyda grym, ond gyda chyfrifoldeb arweinwyr dros eu dilynwyr. Mae Cristnogion yn hoffi grym a dylanwad a hawl i ddweud sut y dylai pethau fod. Y demtasiwn i'r cyhoedd ydi cega bod ein harweinwyr, "I gyd yr un fath!" Ond dydyn ni chwaith ddim yn berffaith.

Yn rhestr darlleniadau'r eglwys mae'r tymor presennol yn canolbwyntio ar sut i fyw mewn byd amherffaith tu hwnt. A'r datganiad gorau y gwn i ar y pwnc yw'r un gan fardd o'r Ynysoedd Erch (Orkney), sef Edwin Muir. Yn y gerdd 'One foot in Eden' mae'n ymhelaethu ar ddameg yr ŷd a'r efrau, a'r cyngor i adael iddyn nhw dyfu gyda'i gilydd rhag i ddaioni'r ŷd gael ei ddiwreiddio wrth dynnu'r efrau.

Sonia'r bardd am ryfeddod y caeau o'n cwmpas a blannwyd â phlanhigion cariad a chasineb, a does dim i wahanu'r ŷd a'r efrau am eu bod wedi tyfu mor agos at ei gilydd. Ni piau'r planhigion hyn o gariad a phechod lle y byddwn yn casglu ein cynhaeaf. Mae amser ei hun yn dwyn y tyfiant a'r ffrwyth, ac yn llosgi'r dail i ffurfiau o arswyd a galar ar hyd ffordd y gaeaf.

Yn ein byd ni mae 'na flodau na welid byth yn Eden, blodau galar a chariad sydd ddim ond yn tyfu yn ein caeau tywyll ni. Beth fu gan Eden i'w ddweud erioed am obaith a ffydd, am drugaredd a chariad? Bendithion rhyfedd na welid ym mharadwys sy'n syrthio o'r wybrennau cymylog hyn.


> Strange blessings never in Paradise
> Fall from these beclouded skies.

Rhinwedd, nid teimlad bach neis, ydi gobaith. Felly daliwn ati.

*Enid Morgan*
*(cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Cristnogaeth21)*

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 6. 'Yr adrodd yn ôl i Naomi' (Ruth 2:17–23)

Wrth barhau ein taith drwy Lyfr Ruth rydym eto'n cael ein hatgoffa o'r ffordd y mae llaw Duw yn darparu'n ymarferol ar gyfer ei bobl.

Yn sicr, yr wythnos diwethaf, pan welodd Boas Ruth, mi fedrwn ni ddweud mai 'Waw!' oedd ei ymateb. Oedd Ruth yn teimlo'r un fath? Efallai, ond y 'Waw!' i Ruth oedd ei syndod at y fath garedigrwydd roedd Boas yn ei ddangos tuag ati. Roedd Ruth yn edrych ar ei bywyd drwy dristwch ei hamgylchiadau ac erbyn hyn yn methu hyd yn oed â gobeithio. Ond roedd Boas gam ar y blaen iddi. Roedd un o'i weision wedi dweud wrtho am ei chysylltiad â Naomi, ac felly roedd eisoes yn ei hadnabod fel perthynas iddo. Ar ddiwedd y diwrnod mae Ruth yn cael gwybod gan Naomi am gyswllt agos Boas â nhw fel teulu. Ond, o gyfeiriad Boas, mae'r ddrama serch mewn gwaith yn barod a doedd dim gwastraffu amser i fod yma.

Heddiw, fe welwn Ruth, merch sy'n ostyngedig yn ei hamgylchiadau, yn gydwybodol yn ei gwaith ac yn ufudd i'r alwad ar ei bywyd i anwesu'r Arglwydd y mae'n ei adnabod bellach. Wrth gasglu bwyd, mae'n gwneud hynny'n ffyddlon heb feddwl am unrhyw wobr. Adnabod eto ymrwymiad Ruth i Naomi wnawn ni yn ei pharodrwydd i lafurio'n galed i gynnal y ddwy ohonynt.

Wedi casglu'r grawn yng nghaeau haidd Boas tan yn hwyr, mae Ruth yn prysuro wedyn i'w ddyrnu gan droi'n ôl at Naomi hefo cymaint â 15kg (33 pwys) o flawd. Wedi cyrraedd ati, mae Ruth yn adrodd ei hanes yn cyfarfod Boas. Ymateb Naomi ydy: "Bendith yr Arglwydd arno, Nid yw'r ARGLWYDD wedi atal ei drugaredd at y byw na'r meirw" (2:20). Ac yna, mae'n ychwanegu, "Y mae'r dyn yn perthyn inni, ac yn un o'n perthnasau agosaf." Unwaith eto, mae Naomi yn cyfeirio at 'drugaredd' Duw. Daethom at y gair Hebraeg yma am 'drugaredd' yn y bennod gyntaf – y gair 'chesedd', sy'n golygu cariad neu deyrngarwch: gair y gellir hefyd ei gyfieithu â'r gair 'gras', a gair y down i adnabod ei ystyr yn gyflawn yn Iesu Grist.

Eglurodd Ruth wrth Naomi fod Boas wedi dweud wrthi am aros yn ei gaeau ef a 'glynu' wrth ei weision a'i forynion hyd ddiwedd y cynhaeaf. Yn ei doethineb a'i hadnabyddiaeth o arferion a diwylliant ei phobl, mae Naomi yn cytuno mai dyna ddylai Ruth ei wneud gan y byddai hynny'n ymarferol ac yn sicrhau ei diogelwch fel gwraig weddw ifanc. Ond mae mwy na doethineb ac adnabod diwylliant ei phobl yma gan ein bod, yn adnodau 22–3, yn cyfarfod Naomi newydd, un nad ydym wedi ei chyfarfod hyd yn hyn: Naomi sy'n fedrus yn ei gallu i gynllunio neu hyd yn oed i gynllwynio sefyllfaoedd fydd o blaid y ddwy ohonynt. Yng ngharedigrwydd Boas, mae Naomi yn adnabod ffyddlondeb Duw ac yn gweld bod drws gwaredigaeth yn agor o'u blaenau.

Felly, fel y bu i Ruth 'lynu' wrth Naomi a mynd efo hi i Fethlehem, eto rŵan mae hi'n 'glynu' wrth 'lancesau Boas ... hyd ddiwedd y cynhaeaf'.

**Cwestiwn i'w drafod:**

Wrth edrych ar adnod 20 yng nghyd-destun adnod 3, mai 'digwydd' dod at gaeau Boas wnaeth Ruth, fedrwch chi ganfod digwyddiad yn ei bywyd oedd ar yr olwg gyntaf yn edrych fel ffawd ond mewn gwirionedd yn rhagluniaeth Duw?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 20 Hydref – Diolchgarwch**

Mae Lowri Morgan yn ymweld â Gorllewin Morgannwg, cartref Prifwyl yr Urdd 2025, i ddathlu tymor diolchgarwch. Ymhlith ei gwesteion bydd Gareth Richards o Gwm Tawe a'r soprano ddisglair Fflur Wyn. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd yn Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 20 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Gwir Barchedig David Morris

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 20 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Jennie Hurd, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](www.gair.cymru)

# Gwasanaeth diolchgarwch *Cenn@d*

**Cyflwyniad**:
Mae'n dymor diolchgarwch, a'r oedfaon yn drwch yng nghefn gwlad sir Gaerfyrddin eleni eto, fel arfer. Yng ngeiriau William Cowper:

> Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
> yn dwyn ei waith i ben,
> ei lwybrau ef sydd yn y môr,
> marchoga wynt y nen.

Ac er ein bod yn glyfar fel dynoliaeth, mae'r tymhorau a'n gallu i hau a medi'n ein synnu fwyfwy bob blwyddyn. Mae gweld cynhaliaeth Duw, daioni Duw a chariad Duw atom yn ein calonogi. Sut allwn ni beidio â diolch? Sut allwn ni beidio â rhannu'r newyddion da? Sut allwn ni beidio â chanu mawl wrth i Dduw ddarpar ar ein cyfer?

**Emyn**: 'Duw'n darpar o hyd' (*Caneuon Ffydd*, 119)

**Darllen**: 1 Brenhinoedd 17:1–16 'Elias a'r Weddw'

**Myfyrdod**:
Roedd bywyd yn anodd ym mhentref Sareffath.

Yn wir, roedd pethau'n galed ar hyd a lled gwlad Israel. Roedd gyda nhw frenin cas a lletchwith, Ahab.

Cyfrifoldeb anodd y proffwyd Elias oedd dod â'r newyddion drwg am sychder a cholledion mawr iddo, os na newidiai ei ffordd.

O ganlyniad roedd y brenin am ei waed a gorfod iddo fe redeg am ei fywyd, a hynny i le diarffordd lle y darparodd Duw ddŵr, a'r cigfrain yn dod â bwyd iddo.

Pan sychodd y nant, cafodd Elias gyfarwyddyd arall gan yr Arglwydd, neges mai'r stop nesaf ar ei antur fyddai teithio i bentref Sareffath.

Yno, dywedodd Duw wrtho, byddai'n gweld gwraig weddw a fyddai'n ei fwydo fe. Ac roedd Elias yn siŵr o fod yn meddwl: 'Scarcely believe!' Yn yr amser anodd yma a phawb yn yr ardal yn brin o fwyd, sut oedd gwraig weddw o bawb yn mynd i allu bwydo un arall wrth y bwrdd?

Wrth ddod i'r pentref gwelodd Elias y wraig weddw yn casglu coed tân ar ochr y ffordd. "Wraig!" galwodd Elias arni. "Dewch â diod o ddŵr i mi!" Aeth hi i nôl dŵr iddo, a phan ddaeth hi'n ôl, gofynnodd Elias am fara i'w fwyta.

Dyna'r cyfan a ofynnodd, ond roedd yn ddigon i anfon y wraig i gyflwr o ddiflastod a phenbleth. Dyma'r realiti yr oedd hi'n byw ynddo: roedd hi, y weddw, y dlotaf o'r tlawd, y mwyaf digalon o gymdeithas, wedi bod ma's yn casglu coed er mwyn cynnau tân. Doedd gyda hi fawr ddim o gwbl ar ôl i'w fwyta, a dim gobaith am fwy.

Yn wir, dyma hi'n esbonio nad oedd gyda hi ddim wrth gefn: "Does gen i ddim bara! Roeddwn i newydd fynd adref i gymysgu'r tamaid bach olaf o olew a'r tamaid bach olaf o flawd, y pethau olaf un ar ôl yn fy mhantri o gwbl, i wneud un gacen fach i mi fy hun a fy mab, ein pryd olaf cyn i ni roi i mewn i'r anobaith sy'n ein hamgylchynu a gorwedd i farw."

Dyna oedd realiti ei bywyd, eglurodd i Elias. Roedd wedi deffro'r bore hwnnw i sylweddoli'r sefyllfa yr oedd hi ynddi: dim ond ychydig o flawd ar ôl mewn jar, dim ond ychydig o olew mewn jwg. Dim ond digon ar gyfer un pryd bach arall, ac yna gallai weld y diwedd, reit yno o flaen ei llygaid.

Efallai mai'r realiti a welodd yn ei chwpwrdd yw realiti'r byd hwn, ond NID dyna yw realiti Duw.

I ddangos hyn, gofynnodd Elias i'r weddw gamu allan mewn ffydd. Dywedodd wrthi am wneud torth fach o fara iddo, ac yna gwneud torth fach arall iddi hi a'i mab.

Dywedodd Elias wrthi y byddai yn ei chwpwrdd bob bore ddigon o flawd a dim ond digon o olew i'w fwyta ar gyfer y diwrnod hwnnw … bob dydd nes i'r sychder ddod i ben ac yr adferai Duw ffawd Israel.

Pan awgrymodd Elias y gallai gefnu ar gyfyngiadau ei realiti, derbyn yr hyn yr oedd Duw yn ei gynnig iddi, dyma oedd trobwynt yr hanes a throbwynt gweddill bywyd y weddw.

Doedd hyn yn ddim i'w wneud ag Elias, ond roedd yn ymwneud â'r weddw. Roedd yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn fodlon cymryd cam allan o'r realiti a welsai reit o flaen ei llygaid y bore hwnnw, a chamu mewn ffydd i'r realiti yr oedd Duw yn ei gynnig. Cam o ffydd, cam o obaith, cam o addewid, a cham o bosibilrwydd a bywyd newydd.

Realiti Duw oedd y realiti y dewisodd y weddw fyw ei bywyd trwyddo. Edrychodd yn ddwfn o'i mewn ei hun; casglodd ei holl ddewrder i gredu bod Duw wedi dal ei bywyd hi a bywyd ei mab yn ei ddwylo.

Beth yw ein realiti ni?

Realiti ein diolchgarwch wrth i ni sylweddoli beth sydd gyda ni – faint yw ein dyled ni? Wrth gyfrif ein bendithion, fesul un ac un, mae llawer iawn gyda ni i ddiolch amdano.

Wrth i ni ymddiried yn Nuw, ry'n ni'n cael ein harwain i weld y gwirionedd a sylweddoli beth ry'n ni'n dibynnu arno.

Wrth i ni weld gorau ein byd, ry'n ni'n sylweddoli bod yn rhaid i ni hefyd ymddiried a RHANNU yr hyn sydd gyda ni. Wrth rannu, ry'n ni'n cael llawer mwy yn ôl.

Wrth roi ein gorau mewn ymateb i ddaioni Duw, ry'n ni'n dangos cariad Duw i eraill.

Wrth i ni sylweddoli ein braint, wrth i ni ymddiried yn Nuw, ry'n ni'n sylweddoli taw rhoi ein gorau yw'r peth lleiaf y gallwn ei wneud.

Gwnawn y cyfan yn enw yr un wnaeth roi'r cwbl oedd gyda fe i'w roi – Iesu ein Gwaredwr.

**Emyn**: 'Am y llaw agored, raslon' (*Caneuon Ffydd*, 94)

**Gweddi**

Dduw Dad, ry'n ni'n diolch i ti am dy ras, dy gariad a'th haelioni i ni ar hyd yr amser. Wrth sylweddoli bod dy law yn rhoi, ac yn dal i roi, nid yn ôl ein haeddiant, ond yn ôl dy gariad.

O dymor i dymor, o fis i fis, ac o wythnos i wythnos, wrth i ni roi amser i gyfrif ein bendithion, ry'n ni'n sylweddoli ein braint, a'n dyled i ti.

Derbyn ein clod a'n mawl adeg y cynhaeaf fel bob amser. Diolch am dy eglwysi a pawb sy'n gweithio ym mhob oes ac amser. Diolch am y rhai sy'n hau hadau cariad a'r rhai sy'n ei feithrin, fel bo i eraill trwom ni nid yn unig adnabod cariad ond hefyd ledaenu'r cariad hwnnw ym mhob ffordd bosib.

Bydd yn agos atom wrth i ni gyflwyno ein diolch i ti. Amen.

*Emyr Williams*
*Gofalaeth y Gwendraeth*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru